# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Ionawr 2020

Amser: 09.03 - 15.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5957

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>Mark Isherwood AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Jane Hutt AC, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip<br>Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru<br>Alyson Francis, Llywodraeth Cymru<br>Ceri Stradling, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru<br>Shereen Williams, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Dominic MacAskill, Unsain<br><br>Amber Courtney, UNSAIN Cymru<br><br>Mike Payne, GMB<br><br>Sally Chapman, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru<br><br>Y Cynghorydd, Jan Curtice, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br><br>Dave Daycock, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br><br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br><br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br><br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br><br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br><br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Caroline Jones AC.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21: sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
- Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

- John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
- Reg Mitchell-Kilpatrick, Cyfarwyddwr - Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

2.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- Ddarparu'r wybodaeth poblogaeth a ddefnyddiwyd fel rhan o'r cyfrifiadau ar gyfer setliad Llywodraeth Leol a manylion o ran y rhesymau dros ddefnyddio'r set ddata benodol hon;
- Rhoi cyfanswm yr holl gronfeydd cyfalaf sydd ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi'r agenda ddatgarboneiddio;
- i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch:
    - sut yr eir i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng staff gofal/gwasanaethau cymdeithasol a gyflogir yn y GIG a'r rheini mewn awdurdodau lleol o ran cyflog, telerau ac amodau, a statws; a pha gamau eraill a gymerir i wella amodau cyflogaeth ac ansawdd gwaith ar gyfer staff cyflogedig awdurdodau lleol yn y sector gofal/gwasanaethau cymdeithasol;
    - sut y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r cynnydd yng Ngrant y Tasglu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gael ei ddefnyddio a'r canlyniadau a ddymunir;
    - a yw'r £2.3miliwn a ddyrannwyd fel grant penodol i'r Gwasanaeth Mabwysiadu yn ddigonol, a sut y bydd yr arian ychwanegol hwn yn arwain at ganlyniadau gwell?
    - sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cyflawniad y gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014?

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21: sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Jane Hutt AC, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
- Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

- Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau, Llywodraeth Cymru

3.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth am ddatblygiad Cynllun Gwella'r Gyllideb ac, yn benodol, y gwaith sy'n mynd rhagddo i adolygu a gwerthuso cynnydd a rhagor o fanylion am y prif gerrig milltir;
- Pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl pederfynu'n derfynol ynghylch gweithredu argymhellion y cyd-bwyllgorau mewn perthynas â chyhoeddi'r holl asesiadau unigol o effaith mewn un lle:
- Manylion ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion perthnasol yn adroddiad Cam 2 Chwarae Teg ar asesiadau o effaith y gyllideb; a
- Rhagor o wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd yn dilyn y cynllun peilot i baratoi cyllidebau ar sail rhyw yn 2007

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020 - 10 Rhagfyr 2019

4.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

**4.2 Gohebiaeth at y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch ymateb i'r adroddiad ar fudd-daliadau yng Nghymru - 16 Rhagfyr 2019**

4.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth at y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymateb i'r adroddiad ar fudd-daliadau yng Nghymru.

**4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ynghylch Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned - 17 Rhagfyr 2019**

4.3a Nodod y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Tracy Burke, Llywodaeth Cymru ynghylch Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned.

**4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch ei ymchwiliad i dlodi tanwydd – 18 Rhagfyr 2019**

4.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeiryddd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch eu hymchwiliad i dlodi tanwydd:

**4.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 27 Tachwedd – 19 Rhagfyr 2019**

4.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ymateb i gais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 27 Tachwedd.

**4.6 Gohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gofyn am ragor o wybodaeth am ddiogelwch tân yn dilyn y cyfarfod ar 5 Rhagfyr – 20 Rhagfyr 2019**

4.6a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gofyn am ragor o wybodaeth am ddiogelwch tân yn dilyn y cyfarfod ar 5 Rhagfyr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitemau 6 a 10

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.

## 7 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 6

7.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ceri Stradling, Dirprwy Gadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Shereen Williams, Prif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

## 8 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 7

8.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Dominic MacAskill, Rheolwr Rhanbarthol UNSAIN Cymru
- Amber Courtney, Trefnydd Datblygu Gwybodaeth UNSAIN Cymru
- Mike Payne, Uwch Drefnydd GMB

## 9 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 8

9.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Sally Chapman, Dirprwy Brif Swyddog a Swyddog Monitro Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Y Cynghorydd Jan Curtice, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Dave Daycock, Clerc a Swyddog Monitro Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## 10 Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft: trafod y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 7, 8 a 9.